7. Y Sector Addysg Oedolion a Pharhaus

Datblygiadau yn y Sector Addysg Oedolion a Pharhaus

Y sector hwn fu'r arafaf i ddechrau rhoi sylw i ADCDF serch hynny un datblygiad pwysig i ADCDF fu cynnwys ADCDF yng ngwaith sgiliau sector Dysgu Gydol Oes y DU (DGO DU). Mae cyfarfodydd gydag amrywiol grwpiau o'r sector wedi dangos y ceir croeso cadarnhaol ynghyd â diddordeb mewn datblygu gwaith sector-benodol a rhagwelir, ar ôl i'r gwaith gyda dealltwriaeth gyffredin ddatblygu, y bydd pethau'n cyflymu wedyn yn y sector hwn yn ogystal.

Datblygu Dealltwriaeth Gyffredin (Cam gweithredu 7.5.1)

Dyrannwyd y gyllideb er mwyn nodi ugain o randdeiliaid ac ymarferwyr allweddol yn y maes a threfnwyd digwyddiad preswyl deuddydd i ddwyn yr unigolion hyn ynghyd i edrych ar "Ddealltwriaeth Gyffredin" i'r sector. Bydd y grŵp yn ystyried sut i'w hintegreiddio i'r maes dysgu oedolion yn y gymuned (DOG) gan ei chyplysu gyda'r polisi DOG cyfredol a gydag ethos dysgu'r sector.

Datblygiadau Dysgu Gydol Oes y DU (Cam gweithredu 7.2.1)

Mae'r safonau proffesiynol trosfwaol newydd ar gyfer athrawon, tiwtoriaid a hyfforddwyr yn y sector dysgu gydol oes yng Nghymru wedi'u cynhyrchu ac mae ADCDF wedi'i hintegreiddio drwyddynt. Mae gwaith yn mynd rhagddo'n awr ar y Fframwaith cymhwyster athrawon a'r cytundeb sgiliau sector. Bydd ADCDF yn cael ei chynrychioli ym mhob un o'r agweddau hyn.

Cymwysterau ac achrediad

Ceir sawl pwynt gweithredu penodol sy'n berthnasol i achrediad, hyfforddiant a phlannu ADCDF mewn dysgu ôl 16 yng nghynllun dysgu ADCDF.

- 7.2.5: gwaith gyda Rhwydwaith y Coleg Agored (RhCA) a chyrff dyfarnu eraill i gynnwys elfennau o ADCDF mewn modiwlau ac unedau a fwriedir ar gyfer cyrsiau i oedolion;

- 7.2.1: Cynnwys ADCDF yn y cwrs TAR AB ac mewn tystysgrifau a hyfforddiant o fath arall i diwtoriaid addysg i oedolion;
- 5.2.4 a 3.2.2: Cynhelir trafodaethau rhyngasiantaeth i ymchwilio i sut y gellid plannu ADCDF yn fwy effeithiol yn yr holl gymwysterau ôl-16;
- 4.2.5: Ymchwilio i achrediad ar gyfer hyfforddiant ADCDF;
- 4.1.4: Cyflwyno ADCDF i'r cyrsiau gweithiwr ieuenctid ar lefel AU/AB er mwyn sicrhau bod hwn yn cael ei ystyried yn faes blaenoriaethol i weithwyr ieuenctid sy'n cymhwyso o'r newydd.

Cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd gyda DGO DU, RhCA Cymru, City and Guilds a FfCChC i edrych ar agweddau ar gyflawni'r rhain. Yn dilyn y trafodaethau hyn penderfynwyd y bydd prosiect yn cael ei gynnal i edrych ar y pwyntiau gweithredu ar draws pob sector. Bydd y prosiect yn edrych ar y posibiliadau ac yn llunio cyfres gyfannol o unedau dysgu ar draws ADCDF gyfan. Bydd yn rhaid i'r unedau hyn weithio ar draws cyd-destun dysgu 14-19 a dysgu ôl-19, ar ystod o lefelau, gan gynnwys i ddechrau Lefel Mynediad - Lefel Tri. Bydd y rhain yn darparu senario credydau trosglwyddadwy i gefnogi a phlannu ADCDF mewn dysgu ôl-16 a bydd yn dylanwadu ar y datblygiadau mewn hyfforddiant i athrawon, darlithwyr a gweithwyr ieuenctid yn ogystal ag ar ddatblygiad personol a phroffesiynol i unigolion.

Cynhaliwyd cyfarfod cychwynnol i edrych yn fanwl ar y prosiect hwn ac mae gwaith pellach ar y gweill i fwrw ymlaen â hwn.

At ddibenion y bennod hon, mae'r sector hwn yn cynnwys addysg gymunedol, addysg oedolion, sgiliau sylfaenol Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL) a datblygu staff.

Cyflwyno'r Cefndir

O fewn y sector hwn, mae'r ddarpariaeth ADCDF yn dameidiog. Mae rhai sefydliadau ac ychydig o diwtoriaid unigol yn gwneud mwy nag eraill ond nid oes unrhyw bolisi yn ei le i gyfeirio cynnydd neu i roi darlun cyfannol o'r hyn sydd wedi ei gynnwys o fewn ADCDF. Ond mae enghreifftiau o arferion da o fewn y sector sy'n arddangos gweithio mewn partneriaeth, mynd i'r afael â datblygu staff, rhwydweithiau effeithiol a rhai prosiectau 'disglair' unigol.